CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

*Cadeirydd* /Chair:
The Revd Canon Edward J Evans
15 St Andrews Road, Bridgend, CF31 1RX
e-bost/e-mail: ejevans972@btinternet.com
ffôn/tel: 01656 655511 / 07968 044583

Y*sgrifennydd*/Secretary:
Ms Alice Parry
39 Galleon Way, Cardiff Bay, CF10 4JA
e-bost/e-mail: ParryA274@hwbcymru.net
*ffôn/tel*: 07779 168084

**Lynne Neagle AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd

CaerdyddCF99 1NA

**Pwnc: Cefnogaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mandadol (CGM) yng Nghymru**

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

Rwy'n ysgrifennu ar ran Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Cymru ar Addysg Grefyddol (CCYSAGauC) i fynegi ein cefnogaeth barhaus i gynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) fel elfen mandadol o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Rydym hefyd yn dymuno ceisio eglurder ar ddull Llywodraeth Cymru o sicrhau bod y pwnc pwysig hwn o fewn Maes y dyniaethau yn cael ei gefnogi a'i weithredu'n effeithiol ledled y wlad, yn enwedig ym mlynyddoedd 10 ac 11.

Fel y gwyddoch, mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar ysgolion i ddarparu CGM mandadol o 3 i 16 oed gan ystyried y canllawiau CGM statudol. Mae hwn yn gam blaengar sydd i'w groesawu, ac rydym yn falch o weld y gwerth a roddir ar alluogi pobl ifanc i archwilio materion moesegol a moesol ac ystyried bydolygon crefyddol ac anghrefyddol amrywiol.

Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon ynghylch lefel y blaenoriaethu a'r ddarpariaeth ar gyfer CGM mandadol ym mlynyddoedd 10 ac 11, lle gall pwysau sy'n ymwneud â phynciau arholiad arwain yn aml at gulhau darpariaeth y cwricwlwm. Er y bydd y TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd yn rhoi cyfle i rai dysgwyr astudio'r pwnc yn fanwl, nid yw wedi'i gynllunio i fodloni gofynion CGM mandadol Yn ogystal, nid yw'n ymddangos bod cymwysterau amgen ar gyfer y rhai nad ydynt yn cymryd y TGAU yn bodloni'r gofynion ar gyfer CGM mandadol o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn llawn.

Felly, hoffem gael cyfarfod i drafod y canlynol:

1. **Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi a monitro darpariaeth CGM mandadol yng Nghyfnod Allweddol 4,** gan sicrhau bod dysgwyr yn parhau i gael darpariaeth ystyrlon, heriol ac o ansawdd uchel sy'n cefnogi dilyniant dysgwyr yn unol â'r canllawiau dysgu 14-16?

2. **Pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â gofynion statudol Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 mewn perthynas â CGM?** A oes cyfle i gynnwys CGM mandadol sydd o fewn elfen dysgu a phrofiadau ehangach hawl dysgwyr 14-16, fel rhan o’r mesurau perfformiad newydd i gefnogi cysondeb a chydymffurfiaeth ar draws awdurdodau lleol?

3. **Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad proffesiynol athrawon CGM presennol ac yn y dyfodol,** i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel ledled Cymru yn enwedig yn wyneb yr argyfwng recriwtio a chadw presennol?

4. **Pa rôl a ragwelir ar gyfer CYS a CCYSAGauC yn y dyfodol** wrth gefnogi dilyniant parhaus dysgwyr o 14-16 trwy CGM mandadol o ansawdd uchel o fewn y Cwricwlwm i Gymru?

Rydym wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ac addysgwyr i sicrhau bod CGM yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd a gwaith yn y gymdeithas amrywiol hon sy’n newid yn gyflym. Byddem yn croesawu’r cyfle i ymgysylltu ymhellach ar y materion hyn mewn cyfarfod gyda chi a’ch cydweithwyr.

Yr eiddoch yn gywir,

*Edward J Evans*

Parchg, Canon Edward Evans
Cadeirydd Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGC)
Wasacre@outlook.com.